
OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 594 (Cy. 137)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd a Bwyd
Anifeiliaid (Cyfyngiadau
Fukushima) (Dirymu) (Cymru)
2022

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn dirymu, o ran Cymru, Reoliad (EU) 2016/6 a ddargedwir sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnfario bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima. Maent hefyd yn dirymu dau arall o Reoliadau'r UE a ddargedwir, a oedd yn diwygio Rheoliad (EU) 2016/6 yn wreiddiol ac sy'n cynnwys darpariaeth drosiannol.

Mae'r Rheoliadau hyn hefyd yn dirymu Datganiad OFFC 2019/W/04, a ddyroddwyd yn wreiddiol gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd er mwyn gweithredu yn rhannol Reoliad (EU) 2016/6 o ran Cymru. Gellir cael copi o'r Datganiad oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn y cyfeiriad isod, neu drwy e-bost i regulated.products.wales@food.gov.uk.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn: Yr Asiantaeth Safonau Bwyd yng Nghymru, Llawr 11, Tŷ Southgate, Stryd Wood, Caerdydd, CF10 1EW neu oddi ar wefan yr Asiantaeth yn www.food.gov.uk/cy.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2022 Rhif 594 (Cy. 137)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

BWYD, CYMRU

Rheoliadau Bwyd a Bwyd
Anifeiliaid (Cyfyngiadau
Fukushima) (Dirymu) (Cymru)
2022

Gwnaed 27 Mai 2022

Gosodwyd *gerbron* *Senedd*
Cymru 30 Mai 2022

Yn dod i rym 29 Mehefin 2022

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan Erthyglau 53(1)(b) a 57a(6) o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor, sy'n gosod egwyddorion a gofynion cyffredinol cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd⁽¹⁾.

Fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002, ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn.

Enwi, rhychwant, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Cyfyngiadau Fukushima) (Dirymu) (Cymru) 2022.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn—

- (a) yn rhychwantu Cymru a Lloegr;
- (b) yn gymwys o ran Cymru;
- (c) yn dod i rym ar 29 Mehefin 2022.

(1) EUR 2002/178; yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S 2019/641 a 2020/1504. Diffinnir y term "appropriate authority" yn Erthygl 3(19) o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.

Dirymu deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a ddargedwir

2. Mae'r offerynnau a ganlyn wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2016/6 dyddiedig 5 Ionawr 2016 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnfario bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima ac sy'n diddymu Rheoliad Gweithredu (EU) Rhif 322/2014(1);
- (b) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2017/2058 dyddiedig 10 Tachwedd 2017 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnfario bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima(2);
- (c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2019/1787 dyddiedig 24 Hydref 2019 sy'n diwygio Rheoliad Gweithredu (EU) 2016/6 sy'n gosod amodau arbennig sy'n llywodraethu mewnfario bwyd anifeiliaid a bwyd sy'n tarddu o Japan neu'n cael eu traddodi o Japan yn dilyn y ddamwain yng ngorsaf ynni niwclear Fukushima(3).

Dirymu Datganiad OFFC/2019/W/04

3. Mae Datganiad OFFC/2019/W/04(4), i'r graddau y mae'n parhau i gael effaith yn rhinwedd rheoliad 16 o Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020(5), wedi ei ddirymu.

Lynne Neagle

Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
27 Mai 2022

-
- (1) EUR 2016/6, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1504.
 - (2) EUR 2017/2058.
 - (3) EUR 2019/1787.
 - (4) Dyroddwyd Datganiad OFFC/2019/W/04 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd o dan reoliad 35 o Reoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd Anifeiliaid a Bwyd (Cymru) 2009 (O.S. 2009/3376 (Cy. 298)). Dirymwyd rheoliad 35 gan reoliad 10(11) o Reoliadau Hylendid a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid (Diwygiadau Amrywiol a Darpariaeth Arbed) (Cymru) (Ymadael â'r UE) 2020 (O.S 2020/1581 (Cy. 331)). O dan reoliad 16 o'r Rheoliadau hynny, mae'r Datganiad yn parhau i gael effaith fel pe bai wedi ei wneud gan Weinidogion Cymru mewn offeryn statudol o dan Erthygl 53 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002.
 - (5) O.S. 2020/1581 (Cy. 331).